O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 248 (Cy. 51)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025

Gwnaed	*3 Mawrth 2025*
Yn dod i rym	*6 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer y gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd fynediad i Fferm Bryndu hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 yn Llys-wen.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mawrth 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru